John Harper: 1872–1912

Siaced achub i arall

Cryfder / gofal

Am hanner dydd, Ebrill 10, 1912, hwyliodd y *Titanic* o borthladd Southampton ar ei thaith i Efrog Newydd. Ar ei bwrdd roedd John Harper, gweinidog o'r Alban a'i ferch chwech oed, Nan. Roedd pawb ar fwrdd y llong yn edrych ymlaen yn eiddgar am y daith. Pawb? Roedd rhai o griw y llong braidd yn anhapus. Roedd dau beth yn eu poeni. Roedd sbienddrych wedi ei ddwyn o'r *crow's nest*, sef y man syllu ar y llong. A hefyd dim ond digon o fadau achub ar gyfer mil a dau gant o bobl oedd yna. Ar fwrdd y llong roedd dwy fil a dau gant! Ond roedd yna un peth arall na wyddai neb, hyd yn oed y capten ei hun. Y mynyddoedd rhew oedd yng nghanol y môr!

Pan oedd John Harper yn 13 oed aeth i wrando, yn ôl ei arfer, ar bregethwr yn ei gapel. Darllenodd y pregethwr o Efengyl Ioan, "Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw..." Y munud hwnnw roedd John yn gwybod bod Duw'n ei alw i fod yn bregethwr. Bu'n gweithio yn ardal Glasgow yn yr Alban a daeth yr alwad iddo fynd i America i sôn am Iesu Grist. Dyma pam roedd ar y *Titanic*.

Mae hi bron yn hanner nos, Ebrill 14. Mae hi'n noson dywyll, dim golwg o'r lleuad yn unman. Yn sydyn, mae'r llong yn taro yn erbyn rhywbeth. Mae yna sŵn rhygnu – dim ond am ychydig eiliadau. Mae darnau o rew yn taro ar ddec y *Titanic*. Mae rhywbeth yn digwydd i'r llong – mae hi wedi taro mynydd iâ! Mae'r alwad yn dod i bawb roi ei siaced achub amdano a mynd yn gyflym tua'r badau achub.

"Y gwragedd a'r plant gyntaf," oedd y neges. Ar ôl i'w thad roi cusan i'w ferch Nan, mae hi'n cael ei harwain i'r bad achub gan griw y *Titanic*.

Mae'n banig llwyr ar fwrdd y llong. Yr ansuddadwy! Roedd hi'n suddo'n gyflym. Yn sydyn iawn, mae'r teithwyr yn sylweddoli nad oes digon o fadau achub. Doedd gan lawer o'r teithwyr ddim siacedi achub. Tynnodd John ei siaced a'i rhoi i ddieithryn. Plymiai'r llong yn is ac yn is. Neidiodd i'r dŵr rhewllyd. Clywai lawer o sgrechian, eraill yn galw am eu hanwyliaid. Dechreuodd John weiddi

yn uwch na'r lleill, "Credwch yn Iesu Grist ac mi fyddwch chi fyw am byth."

Daliai ati i weiddi ar dop ei lais. Roedd un dyn yn dal i afael yn dynn mewn rhan o'r *Titanic*. Roedd y darn mawr hwn wedi dod yn rhydd o'r llong. Clywodd y dyn lais John yn dal i weiddi, "Credwch yn Iesu Grist..." ond yn fuan distawodd y llais. Roedd John wedi boddi yn nyfroedd oer yr Iwerydd.

Y noson honno, bu farw 1,502 o bobl. Ond achubwyd y dyn oedd yn dal i grafangu ar ddarn o'r llong. Soniodd droeon am y llais oedd yn galw yn y tywyllwch. Do, fe ddaeth yn ffrind da i Iesu Grist.

Beth am Nan? Do, fe'i hachubwyd hithau a dychwelodd i'r Alban ac yno y bu hi weddill ei hoes. Ond beth am y person hwnnw a gafodd siaced achub John? Does neb yn gwybod. Ond un peth pwysig i'w gofio ydi bod John wedi cofio'r adnod honno a glywodd pan oedd yn 13 oed. Roedd Duw wedi rhoi ei Fab. Rhoddodd John ei siaced achub hefyd i rywun arall. Gwyddai mai dyna oedd Duw eisiau iddo fo ei wneud.

"Annog hwy ... i fod yn gyfoethog mewn gweithredoedd da."

1 Tim. 6:18

O Dduw, diolch am bobl ddewr.
Pobl sy'n barod i feddwl am eraill hyd yn oed pan fydd eu bywydau nhw eu hunain mewn perygl.
Amen.

Fuasech chi wedi rhoi eich siaced achub i rywun arall?
Pam?

John Harper: 1872–1912